

CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO 1:1 A STRATEGAETH ARBENIGOL

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

Darperir y gefnogaeth drwy'r flwyddyn, gan staff cymwys a chofrestredig sy'n rhan o'r Tîm Dyslecsia mewnol yn y Gwasanaethau Anabledd ym Mhrifysgol Bangor.

Bydd staff croesawus yno bob tro byddwch yn ymweld â'n Derbynfya.



Ystafelloedd unigol un-i-un penodol sy'n darparu lle cyfforddus a chyfrinachol. Mae gan bob ystafell ddwy sgrin gyfrifiadurol, gliniadur (*laptop*) a mynediad at dechnoleg gynorthwyol, digon o le ar ddesg, golau y gellir ei newid er mwyn gwneud yr ystafell yn oleuach neu'n dywyllach, amrywiaeth o gymhorthion dysgu aml-synhwyrdd, bwrdd gwyn, ac mae dŵr yfed wedi'i hidlo ar gael gerllaw.

Ystafell aros gyfforddus lle gall myfyrwyr eistedd ar ôl cyrraedd, ac edrych drwy amrywiaeth o dafleuni gwaith strategaethau astudio ac adnoddau eraill sy'n cael eu harddangos. Mae'r adnoddau hyn ar gael i fyfyrwyr fynd â nhw gyda nhw fel bo'r angen.



Mae gan diwtoriaid sgiliau i gefnogi myfyrwyr i ymgorffori'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn ystod eu hastudiaethau.

Yn y llun hwn, mae Dylan yn dangos sut i ddefnyddio'r Pen LiveScribe.

CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO 1:1 A STRATEGAETH ARBENIGOL

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

Croeso i'r Tîm Dyslecsia - sy'n cynnig cefnogaeth sgiliau astudio a strategaeth arbenigol i fyfyrwyr sydd â Gwahaniaethau Dysgu Penodol, fel Dyslecsia, Dyspracsia, Dyscalwlia ac ADHD.

- Rydym yn rhoi cefnogaeth gyda mathemateg, ystadegau a'r iaith Gymraeg.
- Gallwn eich helpu i werthuso eich cryfderau a'ch dulliau astudio presennol a'ch cefnogi mewn meysydd a all fod yn fwy o her i chi. Byddwn yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau fydd yn gwella eich dysgu, mewn meysydd fel:
 - **Sgiliau Rheoli Amser a Threfnu.**
 - **Rhifedd.**
 - **Sgiliau Darllen Academaidd ac Ymchwil.**
 - **Sgiliau ysgrifennu.**
 - **Sgiliau cyflwyno.**
 - **Strategaethau adolygu.**



Gellwch fynd at ein gwefan i gael rhagor o fanylion am gefnogaeth astudio yn:
<http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/dyslexia.php.cy>